

Pa mor ddiogel yw ein plant? 2017

PAPUR BRIFFIO: CYD-DESTUN CYMRU



Rhagarweiniad

Mae'r NSPCC wedi cyhoeddi'r adroddiad *Pa mor ddiogel yw ein plant? 2017* sef ein pumed trosolwg blynyddol ar amddiffyn plant yn y DU. Mae'r adroddiad yn nodi 20 o wahanol ddangosyddion ac yn rhoi trosolwg ar y tirlun amddiffyn plant gan gasglu'r data diweddaraf gan bob un o'r pedair gwlad yn y Deyrnas Unedig. Mae casglu'r data hwn yn rhan o ymrwymiad y NSPCC i gasglu tystiolaeth. Mae'n ein helpu i olrhain cynnydd gyda chadw ein plant yn ddiogel ac yn nodi beth sydd angen i ni ei wneud i ddiogelu plant.

Mae'r data'n dangos ein bod i gyd yn gwneud mwy i geisio cadw ein plant yn ddiogel. Nid yw'n dangos faint o blant sydd efallai'n cael eu cam-drin neu esgeuluso ac nad ydynt yn hysbys i'r system. Yn 2011 amcangyfrifodd y NSPCC, am bob plentyn oedd gyda chynllun amddiffyn plant neu a oedd ar gofrestr, bod wyth arall oedd yn cael eu cam-drin ond nad oeddent yn derbyn y cymorth oedd ei angen arnynt. Ond mae diffyg unrhyw ddata diweddar yn golygu na wyddom heddiw faint yn union o blant sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Dyna pam ein bod yn galw ar Lywodraeth y DU i lansio astudiaeth newydd i asesu pa mor fawr yw'r broblem.

Mae'r briff hwn yn cyd-fynd ag adroddiad *Pa mor ddiogel yw ein plant? 2017*. Mae'n nodi'r data ar gyfer Cymru ar wahân ynghyd â'r tueddiadau, y tirlun polisi a'r blaenoriaethau amddiffyn plant ar draws Cymru

Esgeuluso

Ers dros ddegawd esgeulustod yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros fod angen rhoi plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant (CPR) yng Nghymru Mae esgeulustod yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel fel pryder ac yn 2015/16 dyma'r unig reswm dros roi 45% o blant ar gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru. Mae hyn i fyny o 40% o'r holl blant ar gofrestr yn 2014/15.

Dros y pum mlynedd ddiwethaf gwelsom hefyd gynnydd yn nifer y troseddau o esgeuluso a chreulondeb at blant dan 16 oed gan riant neu ofalwr yng Nghymru. Roedd nifer y troseddau a gofnodwyd yn 2015/16 109% yn fwy nag yn 2010/11. Yn 2015/16 cofnodwyd 585 o droseddau esgeulustod a chreulondeb at blant sy'n gynydd o 41% ers y flwyddyn cynt.

Mae esgeuluso'n parhau i fod y pryder mwyaf cyffredin gan weithwyr proffesiynol ac oedolion sy'n cysylltu â llinell gymorth y NSPCC. Ar draws y DU yn 2016/17 cafwyd 19,448 o achosion cysylltu. Gyda 2,556 o'r achosion cysylltu,

Canfyddiadau allweddol

- Mae nifer y troseddau o greulondeb ac esgeulustod yn erbyn plant yng Nghymru'n parhau i gynyddu. Yn 2015/16 roedd nifer y troseddau a gofnodwyd 109% yn uwch nag yn 2010/11.
- T Yn y flwyddyn ddiwethaf yng Nghymru mae cynnydd o 50% wedi bod yn nifer y troseddau 'Cyhoeddiadau Anwedus' a gofnodwyd gan yr heddlu – gan gynnwys cynhyrchu, dosbarthu a gweld delweddau o blant yn cael eu cam-drin.
- Yng Nghymru yn 2015/16 roedd cynnydd o 25% yn nifer y troseddau rhyw a gofnodwyd yn erbyn plant dan 16 oed, o'i gymharu â 2014/15.
- T Yng Nghymru mae tuedd gynyddol wedi bod yng nghyfran y plant ar y gofrestr amddiffyn plant (CPR) oherwydd cam-drin emosiynol. Ynghyd â'r niferoedd cyson uchel o blant ar y gofrestr oherwydd esgeulustod, mae hyn yn golygu bod 79% o o'r plant ar y gofrestr yn 2015/16 arni am resymau heblaw cam-drin corfforol neu rywiol.
- T Iechyd meddwl / emosiynol oedd y prif resymau pam fod pobl ifanc o Gymru'n cysylltu â Childline.

roedd y llinell gymorth wedi rhoi cyngor i oedolion oedd yn poeni am esgeuluso. Roedd y 16,882 arall yn ddigon difrifol i gyfiawnhau atgyfeirio at asiantaethau allanol. At ei gilydd mae nifer yr achosion cysylltu wedi cynyddu o 61% dros y pum mlynedd ddiwethaf. Daeth y naid fwyaf mewn atgyfeiriadau sef cynnydd o 96%.

Gallai'r cynnydd hwn mewn adrodd ac yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant fod o ganlyniad i'r ffaith bod y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n fwy hyderus yn adnabod ac ymateb i arwyddion o esgeuluso. Fodd bynnag, oherwydd diffyg data ar ba mor gyffredin yw'r broblem, ni allwn fod yn sicr faint yn union o blant yng Nghymru sy'n cael eu hesgeuluso.

Cam-drin rhywiol

Gwelodd holl wledydd y DU gynnydd yn nifer y troseddau rhyw yn erbyn plant a gofnodwyd yn 2015/16. Mae troseddau rhyw cofnodedig ar draws y DU wedi dyblu ers 2005/06 ac eleni gwelsom y nifer fwyaf mewn degawd o


droseddau a gofnodwyd.

Yng Nghymru roedd 2,329 o droseddau rhywiol wedi eu cofnodi yn erbyn plant dan 16 oed yn 2015/16 sy'n gynydd o 25% ers y flwyddyn cynt Mae cynnydd wedi bod yn y rhan fwyaf o droseddau rhyw yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys cynnydd o 52% mewn treisio bechgyn dan 13 oed (i fyny o 95 i 144 o droseddau) a chynnydd o 40% mewn gweithgarwch rhywiol yn cynnwys plentyn dan 13 oed (i fyny o 234 i 328 o droseddau). Fel y duedd a welir mewn gwledydd eraill, mae troseddau rhyw yn erbyn plant dan 16 oed yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf, i fyny o 145% ers 2010/11. Dim ond y flwyddyn y cafodd y drosedd ei adrodd y mae'r data hwn yn ei adlewyrchu, nid pryd y cafodd ei gyflawni. Efallai nad yw cyfran o'r troseddau yn rhai diweddar. Nid yw'n bosib dweud faint o blant sydd efallai'n cael eu cam-drin yn rhywiol heddiw oherwydd diffyg gwybodaeth am ba mor gyffredin yw'r broblem, ar wahân i achosion sy'n cael eu hadrodd.

Dengys ein data llinell gymorth ar draws y DU fod cynnydd o 23% wedi bod yn nifer yr achosion cysylltu ynghylch cam-drin rhywiol yn 2015/16, sy'n rhan o duedd gyson o flwyddyn i flwyddyn gan awgrymu bod oedolion yn teimlo'n fwy cyffyrddus yn adrodd cam-drin rhywiol.

Rydyn ni'n croesawu'r gwaith diweddar yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â cham-drin rhywiol mewn cartrefi plant, ac ecsbloetio plant yn rhywiol mewn cymunedau. Fodd bynnag mae'n bwysig nodi bod ymchwil y NSPCC wedi dangos bod 90% o'r plant hyn wedi cael eu cam-drin gan rywun yr oeddent yn ei adnabod, a dangosodd ymchwil arall fod traean o'r holl gam-drin rhywiol yn cael ei gyflawni gan blant a phobl

Beth sydd wedi newid ers yr arolwg diwethaf o ba mor gyffredin yw cam-drin plant?: 2009/10 – 2015/16



ifanc eraill

Iechyd meddwl

Dengys data gan Childline fod iechyd meddwl yn bryder mawr i blant ar draws y DU. Dengys ein ffigurau mai problemau iechyd meddwl ac emosiynol oedd y prif reswm dros sesiynau cwnsela gan ChildLine yn 2016/17, ar gyfer y DU yn gyffredinol ac yn enwedig yng Nghymru.

Yn 2016/17, am y seithfed flwyddyn yn olynol, roedd cynnydd ar draws y DU yn nifer y sesiynau lle'r oedd

ChildLine yn cwnsela plant ar faterion hunanladdiad.

Cam-drin ar-lein

I blant nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng eu bywydau ar-lein ac all-lein. Er bod y rhyngwyd yn gallu bod yn fanteisiol iawn i blant, gall hefyd eu gwneud yn agored i niwed. Mae data sy'n casglu tystiolaeth am gam-drin a risg ar-lein yn faes cymharol newydd, ond yn raddol rydym yn creu darlun cliriach o brofiadau plant drwy ymchwil fel adroddiad *Net Aware* y NSPCC, drwy ddadansoddi sesiynau Childline ac wrth i'r heddlu gofnodi troseddau 'Cyhoeddiadau Anwedus'.

Yn gynyddol rydym yn gweld plant yn troi at Childline i dderbyn cymorth ar gyfer y problemau a brofir ganddynt ar-lein. Dengys ein data fod cam-drin a diogelwch ar-lein, gan gynnwys: seiber-fwllo, ecsbloetio plant yn rhywiol ar-lein, a secstio, i gyd yn feysydd pryder cynyddol i blant ifanc sy'n siarad gyda Chwmselwyr Childline. Yn 2016/17 cynhaliodd Childline 12,248 o sesiynau cwnsela ar gam-drin a diogelwch ar-lein ar draws y DU. Mae hyn yn gynydd o 9% ers 2015/16. O'r rhain, soniodd 5,103 am seiber-fwllo sy'n gynydd o 12% ers y flwyddyn cynt. Cynhaliodd Childline hefyd 2,132 o sesiynau ar ecsbloetio plant yn rhywiol ar-lein. Mae hyn yn gynydd o 44% ers 2015/16. Yn 2016/17 roedd 221,840 o'r ymweliadau 'gweld' tudalen ar wefan Childline yn chwilio am gyngor ar secstio, gan wneud hwn y pwnc y chwiliwyd amdano fwyaf am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

Ar gyfer ein hastudiaeth *Net Aware*, mae'r NSPCC yn gofyn i tua 1,700 o blant rhwng 11-18 oed ar draws y DU i adolygu'r prif wefannau rhwydweithio cymdeithasol, apiau a gemau a ddefnyddir gan bobl ifanc. Yn 2015/16 roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gweld bwlio ar rwydweithiau cymdeithasol, ond yn 2016/17 trais a chasineb oedd y math mwyaf cyffredin o gynnwys amhriodol gyda 30% o adolygiadau gan bobl ifanc yn adrodd y math hwn o gynnwys. Roedd 21% o'r adolygiadau wedi adrodd gweld cynnwys rhywiol a 17% wedi adrodd gweld deunydd anghyfreithlon neu 'aeddffed', gan gynnwys cynnwys yn ymwneud â gamblo, cyffuriau neu alcohol.

Yng Nghymru gwelsom gynydd sylweddol yn nifer y troseddau 'Cyhoeddiadau Anwedus' gyda 881 o droseddau wedi eu cofnodi yn 2015/16, cynnydd o 50% yn nifer y troseddau a gofnodwyd ers y flwyddyn cynt.

Mae ymchwil arloesol gan Brifysgol Abertawe a'i Chanolfan Economi Ddigidol (CHERISH-DE) wedi ymwilio i sut y mae troseddwyd ar-lein sy'n paratoi plant i bwrpas rhyw yn cyfathrebu gyda nhw. Mae NSPCC Cymru wedi partneru gyda Phrifysgol Abertawe i sicrhau bod yr ymchwil ddiweddaraf i ieithyddiaeth ar y pwnc hwn yn goleuo ymarfer proffesiynol. Yn ddiweddarach eleni byddwn yn lansio cyfres o ddeunyddiau ar sail y gwaith ymchwil hwn i oleuo a gwella ymarfer proffesiynol ar Baratoi Plant i Bwrpas Rhyw Ar-lein. Mae'r bartneriaeth hon yn rhan o waith y NSPCC i sicrhau ein bod yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf er mwyn diogelu'r byd ar-lein ac all-lein yn gyfartal drwy osod allan arferion diogelu ac amddiffyn plant cyson ar draws pob agwedd ar fywyd plant.

Atgyfeiriadau amddiffyn plant a phlan mewn angen

Atgyfeiriad yw'r cam cyntaf yn y broses amddiffyn plant pan fydd agweddau ar fywyd plentyn yn destun pryder. Derbyniwyd 33,536 o atgyfeiriadau yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 yng Nghymru. Ers 2009/10 mae

tuedd is wedi bod yn nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd yng Nghymru.

Mae plentyn mewn angen os yw'n annhebygol o gyflawni neu o gynnal, neu o gael y cyfle i gyflawni neu gynnal, safon dderbyniol o iechyd neu ddatblygiad heb dderbyn gwasanaethau; neu os yw iechyd neu ddatblygiad y plentyn yn debygol o ddirodd yn sylweddol neu o ddirodd ymhellach heb dderbyn gwasanaethau o'r fath. Roedd 10,060 o blant mewn angen oherwydd cam-drin neu esgeuluso yng Nghymru ar 31 Mawrth 2016. Mae hyn yn 53% o'r holl blant mewn angen yng Nghymru. Roedd hyn yn 160 allan o bob 10,000 o blant

Plant yn y system amddiffyn plant


Roedd 3,059 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru ar 31 Mawrth 2016, ac ychwanegwyd 4,400 o blant at y gofrestr yn ystod y flwyddyn honno. Lle mae plentyn wedi symud i'r gofrestr droeon yn ystod y flwyddyn, cofnodir pob cofrestrriad. Yng Nghymru rhwng 2002 a 2016 cynyddodd nifer y plant oedd ar gofrestr amddiffyn plant o 60% gyda nifer y plant a ychwanegwyd at y gofrestr, am bob blwyddyn, yn cynyddu o 85%. Gan Gymru oedd yr ail gyfradd fwyaf o blant yn y system amddiffyn plant ar draws y DU. Yng Nghymru, esgeuluso o hyd yw'r prif reswm dros fod ar y gofrestr amddiffyn plant. Yr ail reswm mwyaf cyffredin dros fod ar y gofrestr amddiffyn plant yw cam-drin emosiynol. Mae cyfran y plant ar y gofrestr amddiffyn plant oherwydd cam-drin emosiynol wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn dilyn cynnydd sylweddol rhwng 2007 a 2014. Mae plant ar y gofrestr amddiffyn plant naill ai oherwydd cam-drin emosiynol neu esgeulustod yn cynnwys 79% o'r holl blant ar y gofrestr yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod 79% o'r holl blant ar gofrestr yn 2015/16 arni oherwydd cam-drin digyswllt (rhywiol neu gorfforol). Mae nifer y plant sydd wedi cael eu rhoi'n ôl ar y gofrestr am yr ail waith neu fwy yng Nghymru wedi cynyddu eleni i 18% o'r plant ar gofrestr amddiffyn plant am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016. Mae'r ganran hon wedi aros yn eithaf cyson ers 2008/09, sef rhwng 15-18%. Gallai'r cyfraddau ail-gofrestru hyn awgrymu bod y rheswm dros dynnu plentyn oddi ar gynllun diogelu'n un cynamserol neu bod yr amgylchiadau ym mywyd y plentyn wedi newid.

Plant sy'n derbyn gofal

Plant sy'n derbyn gofal yw plant sy'n derbyn gofal gan y wladwriaeth. Gallai plant fod mewn gofal ar ôl cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu oherwydd eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin. Gallai plant hefyd fod mewn gofal os yw rhiant yn sâl neu'n anabl neu'n absennol. Gall y wladwriaeth hefyd ofalu am blant yn wirfoddol am gyfnod byr, gyda chytundeb y rhiant neu'r rhieni.

Rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, rhoddwyd 1,305 o blant mewn gofal ar ôl cael eu cam-drin neu esgeuluso yng Nghymru. Ar 31 Mawrth 2016 roedd 3,720 o blant mewn gofal oherwydd cam-drin neu esgeuluso yng Nghymru. Er bod nifer y plant mewn gofal ar ddiwedd Mawrth 2016 wedi cynyddu o'r nifer ar yr un adeg yn 2015 (3,655), mae'r cyfanswm yn dal i fod yn is na'r anterth a gyrhaeddodd yn 2013 (3,925). Mae cyfran y plant mewn gofal oherwydd cam-drin neu esgeuluso wedi bod yn gyson rhwng 65% a

Beth sydd wedi newid ers yr arolwg diwethaf o ba mor gyffredin yw cam-drin



68% ers y pum mlynedd ddiwethaf.

Cwffio dros bob plentynod

Dengys y dystiolaeth yn *Pa mor ddiogel yw ein plant? 2017* ein bod, gyda'n gilydd, yn gwneud mwy fel aelodau o'r cyhoedd a phobl sy'n gweithio gyda phlant i gwffio dros bob plentynod. Gwyddom fod hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr, ond eto gallwn wneud mwy. Mae diffyg unrhyw ddata diweddar yn golygu na wyddom heddiw faint yn union o blant sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Ni wyddom a oes mwy neu lai o hyn yn digwydd. I atal plant rhag cael eu cam-drin mae angen gwybodaeth drylwyr arnom am beth sy'n digwydd ym mywydau plant.

Er bod Childline ac ymchwil yn rhoi cip pwysig i ni ar yr hyn sy'n digwydd ym mywydau plant, mae angen darlun mwy arnom. Heb y darlun mawr mae'n anodd gweld pa mor fawr yw'r dasg a faint o adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r system amddiffyn plant. Mae'n ei gwneud yn anodd i ni dargedu'r adnoddau prin sydd gennym at lle mae'r angen fwyaf. Mae effaith bosib cam-drin ar fywyd plentyn – ac ar iechyd cymdeithas yn gyffredinol – yn rhy fawr i'w adael i ddyfalu ar sail hen ddata.

Cysylltu

Tim Polisi a Materion Cyhoeddus Cymru
E-bost: Publicaffairs.cymru@NSPCC.org.uk

Y TROSOLWG MUYAF CYNHWYSFAWR
O'R TIRLUN AMDDIFFYN PLANT YN Y DU

[NSPCC.ORG.UK/HOWSAFE](https://www.nspcc.org.uk/howsafe)